## Gwybodaeth Claf - Anafiadau i’r Sgaffoid

Asgwrn bach yn eich llaw rhwng eich bawd ac arddwrn yw eich sgaffoid. Gall fod yn anodd gwneud diagnosis o dorasgwrn o’r asgwrn sgaffoid gan nid yw’r toriad bob amser i'w weld ar lun pelydr-x yn y dechrau. Weithiau, nid yw'n weladwy am 10-14 niwrnod. Oherwydd hyn, fel arfer, bydd yn cael ei drin fel ei fod wedi’i dorri hyd yn oed pan na ellir ei weld ar y pelydr-x.

### Triniaeth

Defnyddio plastr sgaffoid neu weithiau sblint ysgafn yw’r driniaeth ar gyfer anaf sgaffoid. Byddwn ni wedi gofyn i chi ddod yn ôl i'r ysbyty mewn 10-14 diwrnod ar gyfer archwiliad arall.

### Camau nesaf

Bydd y plastr/sblint yn cael ei dynnu a bydd yr arddwrn yn cael ei archwilio eto. Efallai y bydd angen pelydr-x arall ar rai cleifion ac am eraill ni fydd angen triniaeth bellach. Fodd bynnag, efallai bydd angen gwneud mwy o brofion gan fod yr ail lun pelydr-x yn normal ond mae'r arddwrn yn dal yn ddolurus iawn.

Os bydd y pelydr-x yn dangos bod yr asgwrn sgaffoid wedi’i dorri, bydd angen i chi fod mewn plastr am 8-12 wythnos arall. Weithiau bydd angen llawdriniaeth.

### Adfer

Bydd toriad sgaffoid (torasgwrn) fel arfer yn gwella'n dda pan ddeuir o hyd iddo a'i drin yn gynnar.

**Cyngor/Cyfarwyddiadau pellach**

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth sydd yn berthnasol i'r claf os gwelwch yn dda e.e. apwyntiadau pellach neu gyngor ôl-ofal.

Dewis doeth
Choose well

Os byddwch chi'n sâl, neu yn cael eich anafu, dewiswch y gwasanaeth cywir gan y GIG er mwyn sicrhau'r driniaeth orau. Mae ymgyrch Dewis Doeth yn esbonio beth mae pob gwasanaeth yn ei wneud a phryd y dylid ei ddefnyddio.

Bydd dewis yn ddoeth yn golygu eich bod chi a'ch teulu yn derbyn y driniaeth orau. Mae hefyd yn feddwl bod gwasanaethau prysur y GIG ar gael i gynorthwyo'r bobl sydd â'r angen mwyaf.

Os nad ydych yn sicr pa ddewis yw'r un cywir, a wnewch chi ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 os gwelwch yn dda neu ewch at wefan dewis doeth www.dewisdoethcymru.org.uk

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei gynhyrchu yn seiliedig ar daflenni gwybodaeth flaenorol a'r dystiolaeth sydd ar gael ar adeg cyhoeddi. Mae wedi cael ei adolygu'n glinigol, fodd bynnag, os ydych yn sylwi ar unrhyw beth y mae angen diweddaru neu ddiwygio, cysylltwch â ppi.team@wales.nhs.uk